

Protocol Rhannu Gwybodaeth

Cyffredinol

1.1. Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rhannu gwybodaeth lle bo hynny'n briodol i gyflawni dibenion y Llawlyfr hwn, a hynny'n ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir gan y parti sy'n darparu'r wybodaeth mewn perthynas â datgeliad o'r fath.

1.2. Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol hefyd yn nodi'r canlynol yn benodol:

Fel y nodir yn adran 36 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Prif Gwnstabl roi i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau perthnasol unrhyw wybodaeth am faterion plismona a allai fod yn ofynnol gan y corff. O ganlyniad, mae'n rhaid i Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddau allu gweld yr holl wybodaeth ariannol berthnasol yn llawn. Dylai'r manylion ynghylch hyn gael eu pennu yn rhan o Brococol Rhannu Gwybodaeth Lleol, cytunedig, y bydd y ddau Brif Swyddog Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Staff, yn cytuno arno.

Mae gan bob prif swyddog cyllid ddyletswydd ymddiriedol, yn rhinwedd ei benodiad neu ei phenodiad, i fod yn unigolyn cyfrifol am weinyddu arian yn briodol o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gofynion a phwerau ffurfiol i ddiogelu cyfreithlondeb a phriodoldeb mewn perthynas â gwariant (adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 188 o Atodlen 16 i'r Ddeddf). Ni fydd dim yn y Protocol hwn yn llesteirio naill ai'r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd Heddlu a Throseddau) na'r Prif Swyddog Cyllid wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ymddiriedol.

Deddfwriaeth Diogelu Data

1.3. Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymdrechu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth Diogelu Data, a hynny trwy roi'r trefniadau llywodraethu a ystyriwyd yn y Llawlyfr hwn ar waith mewn modd priodol.

1.4. I ddibenion Deddf Diogelu Data 1998, bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i gofrestru eu data gyda swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn achos unrhyw ddata personol a gofnodir o dan eu rheolaeth berthnasol.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

1.5. I ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, pe byddai un ai'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl yn cael cais Rhyddid Gwybodaeth, yna'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl, fel y bo'n briodol, fyddai'n gyfrifol am ymateb i'r cais hwnnw ac am unrhyw drefniadau cydymffurfio dilynol sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth neu reoliadau.

1.6. Byddai unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaw i law un ai'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl, ac sy'n berthnasol i bwnc y Llawlyfr hwn neu'n cyffwrdd ag ef, neu unrhyw faterion sy'n codi ohono, yn cael eu dwyn i sylw'r parti arall cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Lle bo hynny'n angenrheidiol, bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn darparu cymorth rhesymol, y naill i'r llall, er mwyn hwyluso ymateb sy'n amserol ac yn cydymffurfio â'r cais Rhyddid Gwybodaeth, neu ag unrhyw ofyniad cydymffurfio dilynol.

Cyrchu Gwybodaeth

1.7. Mae'r ddau barti, yn ystod cyfnod y Llawlyfr hwn, neu ar unrhyw adeg wedi hynny, yn cytuno na fyddant hwy na neb o'u cyflogeion, eu hasiantwyr (gan gynnwys staff gwirfoddol) na'u his-gontractwyr, yn datguddio, yn darparu nac yn gwneud yn hygyrch, unrhyw wybodaeth gyfrinachol i unrhyw un, oni bai fod y canlynol yn wir:

1.7.1. ar ddyddiad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae'r wybodaeth gyfrinachol eisoes ar gael i'r cyhoedd, neu'n dod ar gael i'r cyhoedd heb unrhyw fai ar y parti arall;

- 1.7.2. mae'r wybodaeth gyfrinachol yn dod ar gael i'r parti arall, mewn modd cyfreithlon, gan ffynonellau nad ydynt yn rhwymedig i rwymedigaethau o gyfrinachedd;
- 1.7.3. roedd yr wybodaeth gyfrinachol ar gael i'r parti arall, a hynny'n anghyfrinachol, cyn iddi gael ei datgelu i'r parti hwnnw;
- 1.7.4. mae'n rhaid i'r parti arall, trwy orfodaeth y gyfraith, ei datgelu.

Trafodaethau Cyfrinachol

- 1.8. Mae'r partïon yn cytuno bod unrhyw drafodaethau rhyngddynt i'w cynnal yn gwbl gyfrinachol, a bod unrhyw ddatganiadau (naill ai mewn ysgrifen neu ar lafar) sydd i'w gwneud mewn perthynas â bodolaeth y trafodaethau rhwng y partïon, yn rhwymedig bob amser i gytundeb ysgrifenedig gan y ddau barti a darpariaethau cyffredinol y Llawlyfr hwn.

Datgeliad trwy Gytundeb

- 1.9. Mae datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn fater i'w drafod a'i gytuno rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Hawliliad

- 1.10. Dim ond i'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl y mae unrhyw gyfyngiad neu hawliliad o ran yr hawl i gyfrinachedd, a ystyriwyd yn narpariaethau'r Llawlyfr hwn, yn berthnasol, a bydd pob aelod o staff yn parhau i fod yn rhwymedig i rwymedigaeth o gyfrinachedd mewn perthynas â thrydydd partïon.

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd:

- 1.11 Ni ddylai unrhyw beth yn y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn rwystro unrhyw bersonél a gyflogir gan naill ai'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl rhag datgelu gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w datgelu o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad o'r fath yn cael ei wneud yn unol â darpariaethau'r Ddeddf honno.